# Credyd Cynhwysol
# Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol

## Cynnwys


**Rhagair y Gweinidog**

**Cyflwyniad i Awdurdodau Lleol**

**Crynodeb Gweithredol**

**1. Adran 1: Trosolwg a diben**

**2. Adran 2: Cyd-destun a chefndir**
Egwyddorion a nodau Credyd Cynhwysol
Pa hawlwyr fydd angen cymorth ychwanegol?
Cyflwyno’r Credyd Cynhwysol fesul cam
Sut mae'r fframwaith yn ymwneud â chamau rhaglen UC
Datblygu'r fframwaith

**3. Adran 3: Pa wasanaethau y bydd eu hangen?**
Meini prawf llwyddiant a chanlyniadau
Adeiladu ar wasanaethau sy'n bodoli eisoes
Gwasanaeth i gefnogi nodweddion newydd Credyd Cynhwysol
Cymorth sy'n gysylltiedig â gwaith

**4. Adran 4: Gweithio mewn partneriaeth**
Partneriaethau cyflenwi
Strwythur partneriaethau

**5. Adran 5: Model ariannu a strwythur cymhellion**
Egwyddorion model ariannu
Lefel o ariannu
Dosbarthu a rheoli'r arian newydd
Sut y gwneir y taliadau

**6. Adran 6: Llywodraethu, Atebolrwydd, Risg a Gwerthuso**
Llywodraethu ac atebolrwydd
Rheoli risg
Gwerthuso

**Rhestr termau**

**Atodiad A: Enghreifftiau o fodelau partneriaeth lleol**
**Atodiad B: Taith hawlwyr Credyd Cynhwysol**
**Atodiad C: Categorïau o hawlwyr**
**Atodiad Ch: Cymorth cyllidebu bersonol**
**Atodiad D: Strwythur partneriaethau**

## Rhagair y Gweinidog

Bydd Credyd Cynhwysol yn gwneud i waith dalu - fel bod pobl yn well eu byd mewn gwaith nag yn hawlio budd-daliadau. Bydd yn gwella a moderneiddio'r system budd-daliadau a dod â'r profiad o hawlio a chael budd-dal i gydymffurfio â byd gwaith. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gwneud eu cais ar-lein a bydd taliadau yn cael ei gwneud yn fisol ac yn uniongyrchol i'r cartref - gan adlewyrchu’r 75 y cant o bobl mewn gwaith sy’n cael eu talu yn y ffordd hynny.

Mae'r mwyafrif o bobl sydd ar incwm isel yn rheoli eu harian yn dda ac yn defnyddio'r rhyngrwyd yn rheolaidd i gyflawni gweithgareddau bob dydd fel siopa a bancio a chynnal chwiliadau am swyddi. Ond mae cyflwyno Credyd Cynhwysol a Pharu Swyddi Ar-lein yn rhoi'r cyfle i ni edrych eto ar y cymorth mae cartrefi efallai ei angen yn yr amgylchedd newydd hwn.

Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr y caiff hawlwyr nad ydynt hyd yma yn barod i gyllidebu drostynt eu hunain bob mis, neu na allant ddefnyddio'r rhyngrwyd, eu diogelu a'u cynorthwyo i mewn i'r system newydd.

Er enghraifft, rydym am sicrhau y caiff hawlwyr sydd â phroblemau dyled neu faterion eraill sy'n eu gwneud yn agored i niwed fel sgiliau rhifedd gwael, bod yn gaeth i gyffuriau neu broblemau iechyd meddwl, gymorth ymarferol o gychwyn eu cais drwy rwydwaith o wasanaethau lleol.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i greu darlun cynhwysfawr o'r math o wasanaethau y gallai fod eu hangen. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ac rydym yn edrych i awdurdodau lleol, fel partneriaid allweddol, i'n helpu i ddarparu cymorth lleol.

Mae'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol, a gynhyrchwyd ar y cyd ag awdurdodau lleol, yn nodi'r egwyddorion ar gyfer y cymorth hwnnw.

Mae'n cynnwys y math o gefnogaeth y byddai’r Adran Gwaith a Phensiynau yn barod i'w cyllido, sut mae partneriaethau presennol yn gweithio a sut y gallai gweithio mewn partneriaeth weithio yn y dyfodol, yn ogystal ag amlinellu meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach fel y model ariannu.

Mae gwybodaeth gan staff a sefydliadau sy'n cefnogi hawlwyr sydd ag anghenion ychwanegol hefyd wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu ein strategaeth a llunio ein cynigion. Rydym wedi derbyn cyfraniadau gan gynrychiolwyr landlordiaid cymdeithasol a phreifat yn ogystal â nifer o elusennau ac rydym wedi gweithio gyda'r Pwyllgor Ymgynghorol Nawdd Cymdeithasol a chlywed gan reolwyr a staff budd-daliadau rheng flaen o'r Ganolfan Byd Gwaith ac Awdurdodau Lleol i sicrhau bod pobl sydd angen help ychwanegol i gyflawni annibyniaeth yn derbyn gwell cymorth o dan Gredyd Cynhwysol nag erioed o'r blaen.


Byddwn yn cyflwyno Credyd Cynhwysol mewn camau, gan ddechrau gyda Cham 1 yn rhanbarthau Manceinion a Swydd Gaer ym mis Ebrill eleni (yr Ardal Arbrofol). Fodd bynnag, mae ffocws y fframwaith hwn ar Gam 2 o'n cynllun gweithredu a fydd yn dechrau ym mis Hydref 2013.

Mae'r fframwaith hwn yn ddechrau trafodaeth a fydd yn datblygu dros y misoedd nesaf yn dilyn adborth gan bartneriaid cyflenwi posibl; yn dysgu o'r 12 peilot Credyd Cynhwysol a arweinir gan awdurdodau lleol a 6 prosiect arddangos taliadau uniongyrchol; a'n profiad o weithrediad Cam 1.

Mae hyn yn ddechrau taith gyffrous. Edrychaf ymlaen at weithio mewn partneriaeth gyda chi i ddarparu gwasanaeth lleol wedi'i deilwra ar gyfer yr hawlwyr Credyd Cynhwysol hynny sydd angen cymorth i gyrraedd sefyllfa lle gallant reoli eu cais Credyd Cynhwysol yn annibynnol a pharatoi ar gyfer gwaith, neu i fwy o waith sy'n talu'n well.

Rwy'n croesawu eich sylwadau ar y fframwaith hwn a sut rydych yn disgwyl i ymateb iddo yn eich ardal chi. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon unrhyw sylwadau cychwynnol i mi erbyn 15 Mawrth 2013. Fel y dywedais, mae hyn yn ddechrau sgwrs, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â chi yn y cyfnod sy'n arwain at weithredu'r fframwaith hwn a thu hwnt.

Anfonwch eich sylwadau ataf yn localservices.framework@dwp.gsi.gov.uk.



**Yr Arglwydd Freud**
**Y Gweinidog Diwygio Lles**

## Cyflwyniad Awdurdodau Lleol

Mae gan lywodraeth leol rôl allweddol i'w chwarae er mwyn nodi, arwain, hwyluso a chomisiynu partneriaethau i gyflawni. Yn aml mae gan y sector gwirfoddol a darparwyr tai cymdeithasol rôl arweiniol mewn partneriaethau cyflenwi lleol, ac yn benodol o ran nodi pwy sydd angen help ac ym mha ffurf.

Mae'r achos dros weithio mewn partneriaeth i roi cymorth i hawlwyr yn ddeublyg. Yn gyntaf, mae'n lleihau cymhlethdod tra'n gwella ansawdd y gwasanaeth a'r canlyniadau i unigolion a theuluoedd. Yn ôl tystiolaeth, mae gweithio ar y cyd yn fwy tebygol o lwyddo i roi'r sgiliau cywir i bobl fod yn annibynnol a helpu eu hunain yn yr hirdymor.

Yn ail, mae cydweithio'n lleol yn lleihau dyblygu gwaith, aneffeithlonrwydd, ymyraethau sy'n gwrthdaro sy'n negyddu ei gilydd, gorbenion biwrocrataidd a chostau trafod y sector cyhoeddus. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod trethdalwyr ar eu hennill.

Caiff y gwerth y mae'r llywodraeth yn ei roi ar weithio mewn partneriaeth ei gydnabod yn ei Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol, sy'n cydnabod y gellir darparu rhai o'r datrysiadau mwyaf effeithiol i broblemau cymdeithasol cymhleth yn lleol, a thrwy bartneriaethau rhwng asiantaethau gwahanol ac ar draws y sectorau.

Yn lleol, mae partneriaethau cyflenwi datblygedig eisoes ar waith mewn sawl lle sy'n dod â sefydliadau ynghyd i roi cymorth i hawlwyr - mae **Atodiad A** yn dangos rhai enghreifftiau cyfredol. Hoffai'r tasglu a baratôdd y ddogfen hon adeiladu ar y rheini lle y maent yn bodoli; eu hatgyfnerthu lle y bo angen er mwyn delio â'r hyn sy'n newydd ac yn wahanol am yr amgylchedd UC; a helpu i ddatblygu ymhellach ddiwylliant o integreiddio gwasanaethau ar draws sefydliadau cyflenwi gwahanol yn lleol.

Mae llywodraeth leol mewn sefyllfa ddelfrydol i fod yn bartner allweddol i ddarparu dull ar sail gweithio hyblyg er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i unigolion a theuluoedd, gan gynyddu annibyniaeth, a lleihau'r galw ar y system les. Ei nod yw creu cymhellion er mwyn lleihau nifer y trafodion a phrosesau y mae'n rhaid i hawlwyr lywio drwyddynt, a lleihau dibyniaeth hawlwyr ar gymorth a ariennir yn gyhoeddus.

Mae'r fframwaith yn cydnabod dulliau gwahanol o weithio mewn partneriaeth mewn ardaloedd datganoledig.

Yng Nghymru, y dull sector cyhoeddus o wella canlyniadau i bobl a chymunedau yw drwy gynlluniau integredig sengl Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLlau) o dan arweiniad llywodraeth leol ond sydd ag aelodaeth amlasiantaethol. Mae'r rhan fwyaf o BGLlau eisoes yn ystyried y ffordd orau o roi cymorth i hawlwyr y mae diwygio lles wedi effeithio arnynt.

Mae'r sefyllfa yn wahanol yn yr Alban oherwydd y Bartneriaeth Gynllunio Gymunedol hirsefydlog. Mae DWP yn cynnal trafodaethau â Chonfensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban (COSLA) a Llywodraeth yr Alban er mwyn dod o hyd i'r ffordd orau o gyflwyno'r fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn y cyd-destun hwn.

Paratowyd y ddogfen hon mewn partneriaeth rhwng DWP a chynghorau. Fel ym mhob partneriaeth, bu rhoi a derbyn wrth ei lunio, a dyma ddechrau nid diwedd y drafodaeth rhwng llywodraeth ganolog a lleol am sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd yn y dyfodol.

Gobaith Cymdeithas Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a CoSLA, yw y bydd cyn gymaint a phosib o gynghorau unigol yn rhoi eu barn mewn ymateb.



**Sir Merrick Cockell**
**Cadeirydd, Cymdeithas Llywodraeth Leol**

## Crynodeb gweithredol

Credyd Cynhwysol (UC) yw'r Diwygiad Lles pwysicaf mewn cenhedlaeth.

Mae'r system bresennol yn gymhleth, yn annigonol ac mae'r cymhelliannau i weithio yn wan. Bydd UC yn symleiddio'r system budd-daliadau drwy ddod ag amrywiaeth o fudd-daliadau oedran gweithio ynghyd mewn un taliad syml sy'n ddigon hyblyg i ystyried amgylchiadau personol, sy'n syml i gael mynediad iddo a'i weinyddu, ac sy'n sicrhau bod pobl yn well eu byd mewn gwaith. Mae wedi'i gynllunio er mwyn hyrwyddo cynhwysiant digidol ac ariannol a gwneud y dasg o drosglwyddo o fudd-daliadau i waith yn un ddidrafferth.

Caiff ei gyflwyno'n raddol, gan brofi, dysgu a gwella'r gwasanaeth wrth iddo ehangu.

Mae'r system bresennol yn cynnwys nifer fawr o sefydliadau cyflenwi a chynghori sy'n gweithio'n lleol ac yn genedlaethol i roi cymorth i bobl gael mynediad i'w budd-daliadau a'u rheoli. O dan UC, ni fydd angen llawer o'r gweithgarwch cymorth a anelir at helpu pobl i lywio drwy'r system budd-daliadau a deall eu hawliadau mwyach.

Mae UC yn rhoi cyfle i sefydliadau cymorth ganolbwyntio mwy o'u hadnoddau ar weithgarwch â gwerth uchel iddo, sydd â'r nod o helpu pobl i oresgyn eu rhwystrau rhag dod yn hunangynhaliol ac yn annibynnol ar gymorth y Wladwriaeth.

Mae hon yn newid sylweddol ond mae Gwineidogion yn credu bod tystiolaeth o ddiwygiadau blaenorol, ynghyd â data sy'n deillio nawr o Brosiectau Arddangos Taliadau Uniongyrchol, bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu ymdopi â nodweddion newydd y system UC.

Fodd bynnag, gwyddom y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai pobl yn cynnwys yn ystod y cyfnod y byddant yn trosglwyddo o'r system budd-daliadau presennol i UC. Yn benodol, gwyddom y bydd angen cymorth ar rai hawlwyr gyda'r canlynol:

- Blaenoriaethu ac esbonio'r gwasanaethau newydd, yn arbennig tra byddant yn cael eu cyflwyno'n raddol fesul cam;
- Cymorth wrth wneud ceisiadau ar-lein a rheoli eu cyfrif UC ar-lein;
- Cyngor i'w helpu i reoli eu harian o dan drefniadau talu misol UC a sicrhau y caiff rhent a llif arian parod ei reoli'n dda.

Mae’r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn gweithio'n agos â chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol (ALl) i nodi'r gwasanaethau y gallai fod eu hangen a'r ffordd orau o'u darparu.

Mae’r fframwaith yn ganlyniad cydweithrediad agos rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau ag ALlau a gwrando ar adborth gan amrywiaeth eang o sefydliadau perthnasol gan gynnwys: y Pwyllgor Cynghori ar Nawdd Cymdeithasol[1]; y Gweithgor Cymorth ac Eithriadau[2]; Hyrwyddwyr Hawlwyr[3]; Gweithgorau Awdurdod Lleol a Rheolwyr Dosbarth yr Adran Gwaith a Phensiynau.

[1] Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Nawdd Cymdeithasol (SSAC) yn gorff statudol sy'n rhoi cyngor diduedd i lywodraeth y DU ar faterion nawdd cymdeithasol.
[2] Mae'r Gweithgor Cymorth ac Eithriadau, yn un o weithgorau'r Credyd Cynhwysol, sy'n ystyried y broses o gynllunio a chyflwyno'r cymorth sydd ei angen i roi cymorth i hawlwyr addasu i Gredyd Cynhwysol.
[3] Mae Hyrwyddwyr Hawlwyr yn grŵp o "gyfeillion beirniadol" o sefydliadau partner a sefydliadau allanol sy'n defnyddio eu dealltwriaeth o grwpiau hawlwyr i herio'r broses o gyflwyno'r gwasanaeth credyd cynhwysol a nodi lle y gall rhai hawlwyr gael anhawster. Mae'r Hyrwyddwyr Hawlwyr yn cymryd rhan bersonol yn hytrach na chynrychioli eu

Mae'n amlinellu dull lefel uwch o feithrin partneriaethau cyflenwi lleol a darparu arian i gwmpasu'r costau cynyddol o gefnogi'r cyfnod trosglwyddo i UC a chymhellion ar gyfer partneriaid lleol, gan weithio gyda'i gilydd i helpu hawlwyr i symud tuag at fod yn hunangynhaliol ac annibynnol.

## Adran 1: Trosolwg a Diben

sefydliadau (er bod llawer o sefydliadau eisoes yn rhan o ymgysylltiad cyfathrebu a rhanddeiliaid sefydledig). Ffurfiwyd y grŵp ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod haf 2012, er mwyn gosod her allanol cynyddol.

Er y bydd cael mynediad i'r cymorth a ddarperir drwy Gredyd Cynhwysol (UC) yn syml o gymharu â'r system budd-daliadau bresennol, efallai y bydd angen help ychwanegol ar rai pobl, fel y mae angen heddiw.

Datblygwyd y fframwaith hwn er mwyn diwallu'r anghenion ychwanegol hynny a chydnabod bod gan bartneriaid cyflenwi llywodraeth ganol rôl ganolog i'w chwarae i ddarparu gwasanaethau cyflenwi ar hyn o bryd ac yn y dyfodol er mwyn rhoi cymorth i hawlwyr ac i weithredu UC yn lleol.

Mae'n darparu strwythur, a ddatblygwyd gan DWP mewn cydweithrediad â chydweithwyr Awdurdod Lleol (ALl), ar gyfer cynllunio cymorth cyfannol ac integredig yn lleol i bobl sydd angen help ychwanegol i wneud neu gynnal cais am UC er mwyn cefnogi eu taith tuag at fod yn hunangynhaliol ac annibynnol.

Yr amcan a rennir ar gyfer DWP, ALlau a phartneriaid cyflenwi eraill yw symud hawlwyr yn effeithiol ac effeithlon i safle lle y gallant ddefnyddio'r gwasanaeth UC safonol yn annibynnol, tra'n sicrhau bod gennym wasanaethau digonol ar waith i roi cymorth i'r lleiafrif o hawlwyr y gallai fod angen cymorth estynedig arnynt. Er ein bod yn cydnabod y bydd angen cymorth o hyd ar rai hawlwyr drwy gydol eu cais, y nod cyffredinol yw lleihau nifer yr hawlwyr, a'r galw am gymorth lleol, dros amser.

Yn y pen draw, gweledigaeth y llywodraeth hon yn y tymor hwy yw model cyflenwi mwy agored, a fydd, gobeithio yn cynnwys cymuned llawer ehangach o ddarparwyr lleol. Fodd bynnag, ar y dechrau, gwahoddir awdurdodau lleol, fel partneriaid allweddol DWP, i gymryd arweinid i roi cymorth i hawlwyr gynyddu eu gallu a bod yn annibynnol a'u cynnwys yn gymdeithasol.

Mae'r fframwaith hwn yn nodi ein dealltwriaeth ar hyn o bryd o bwy fydd angen cymorth lleol arnynt; yn disgrifio pa wasanaethau y dylid eu darparu i'r hawlwyr hyn o dan y fframwaith; ac yn disgrifio'r ffordd y darperir cymorth lleol, gan alluogi datrysiadau wedi'u targedu i ddiwallu anghenion unigolion a rhanbarthau lleol gwahanol.

Rydym yn cydnabod y bydd UC yn cyflwyno rhai newidiadau sy'n golygu y bydd nifer o ofynion newydd i'r gwasanaeth. Bydd y fframwaith hwn yn mynd i'r afael â'r gofynion newydd hyn ac unrhyw gostau graddol a gwobrwyon a rennir.

Mae'n rhoi cyfle i bartneriaid cyflenwi ystyried ac adolygu'r cynigion ac yn gofyn am eu hadborth ar bob agwedd ar y fframwaith.

## Adran 2: Cyd-destun a Chefndir

### Egwyddorion UC

Diben UC yw creu system sy'n atgyfnerthu cymhellion i weithio fel ei bod yn cefnogi ac yn annog gweithio'n well, ac yn lleihau cymhlethdodau budd-daliadau, drwy eu strwythur a'u dull o gyflwyno.

### Nodau UC

Mae diwygio'r system budd-daliadau yn flaenoriaeth allweddol i'r llywodraeth hon. Mae cyflwyno UC yn disodli llawer o'r budd-daliadau a'r system credydau treth i bobl mewn gwaith ac y tu allan o waith.

Bwriad UC yw cyflwyno system les decach sy'n fwy fforddiadwy a fydd yn mynd i'r afael â thlodi, achosion o beidio â gweithio, dibyniaeth ar fudd-daliadau ac yn helpu pobl i mewn i waith. Rhaid iddo fod yn wasanaeth ymatebol, o safon uchel, a fydd yn darparu cymorth a chymhellion mewn gwaith ac y tu allan o waith yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae ganddo dri phrif nod:

- Helpu hawlwyr a'u teuluoedd i reoli eu budd-daliadau a'u cyflogau yn annibynnol, a ble y bo'n bosibl, fod yn annibynnol ar y wladwriaeth;
- Cau'r bwlch rhwng y profiad o fod allan o waith a bod mewn gwaith a chael cyflog; a
- Gwneud i waith dalu fel bod pobl bob amser yn well eu byd mewn gwaith.

Bydd UC yn creu'r cyfle i gynyddu cynhwysiant digidol ac ariannol er mwyn helpu hawlwyr a'u teuluoedd i fod yn fwy annibynnol.

Ei fwriad yw rhoi cymorth i bobl ddod o hyd i waith, gan gynyddu faint o waith maent yn ei wneud ac aros mewn gwaith. Bydd hefyd yn rhoi'r cymorth ariannol iddynt sy'n briodol i'w hamgylchiadau pan gyfyngir ar eu gallu i weithio a chynnal eu hunain.

Er mwyn bodloni eu nodau strategol, mae angen i UC wneud y canlynol:

- Sicrhau bod cynifer o bobl â phosib yn hawlio UC â ffocws ar gyflogaeth;
- Tynnu rhwystrau i gyflogaeth wrth weithredu'r system les;
- Llywio'r broses o ddarparu gwasanaethau ar ôl 2013;
- Symud hawlwyr tuag at hunanwasanaeth ac awtomeiddio ac i ffwrdd o ddarpariaeth wyneb yn wyneb;
- Symud hawlwyr tuag at fod yn hunangynhaliol ac ariannol annibynnol
- Lleihau costau gweinyddol; a
- Lleihau twyll a gwallau.

### Pa hawlwyr fydd angen cymorth ychwanegol?

I'r rhan fwyaf o bobl mae Gwineidogion yn credu ni fydd cyflwyno UC yn achosi unrhyw anawsterau. Bydd y broses safonol i hawlwyr yn mynd â'r hawliwr drwy gyfres o gamau sydd eu hangen i wneud a chynnal cais.

Gweler **Atodiad B** i gael darlun o Daith Hawliwr UC.

Wrth wneud cais i UC, bydd yr hawliwr yn mynd drwy gyfres o gamau allweddol:

- Dysgu am UC;
- Creu cyfrif UC;
- Rhoi manylion ar gyfer y cais;
- Gweld swm tebygol y taliad;
- Cyflwyno cais;
- Paratoi ar gyfer cyfweliad;
- Mynd i'r cyfweliad cychwynnol;
- Profi manylion adnabod;
- Llofnodi  Ymrwymiad Hawliwr; a
- Derbyn hysbysiad dyfarnu a thaliad.

Wrth gynnal cais i UC, bydd angen i hawliwr wneud y canlynol:

- Cyllidebu bob mis a thalu rhent;
- Dangos eu bod “wrthi’n chwilio am waith” (lle y bo'n briodol);
- Derbyn gwaith;
- Ceisio cynyddu eu henillion o waith; a
- Diweddaru eu manylion.

I rai hawlwyr, fodd bynnag, yn union fel y system heddiw, ni fydd cael mynediad i'n gwasanaeth a delio â'r newidiadau a ddaw yn sgil UC mor syml â hynny. Bydd angen help ychwanegol ar rai hawlwyr i addasu i'r model newydd o hawlio sydd ynghlwm â UC neu am eu bod yn wynebu problem benodol dros dro. Gall fod angen help ar bobl eraill yn hirach. Mae **Atodiad B** yn dangos rôl bosibl gwasanaethau cymorth lleol o ddechrau i ddiwedd taith yr hawliwr.

Efallai y bydd angen mwy o help gyda'r broses safonol ar rai hawlwyr mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft y rheini â phroblemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu, pobl sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol a hawlwyr digartref, na'r hawlwyr y mae eu hamgylchiadau yn symlach. Rydym wedi nodi'r mathau o hawlwyr y disgwylir iddynt fod y mwyaf tebygol o fod angen gwasanaethau ychwanegol. Gellir gweld y **catagoriau’r hawlwyr** hyn yn **Atodiad C.**

Ond nid yw ein yn seiliedig ar labelu hawlwyr ond ar y gallu i ddeall anghenion penodol y tu allan i'r broses safonol i hawlwyr, yn hytrach na gwneud tybiaethau ar sail labeli, a chreu gwasanaethau er mwyn diwallu'r anghenion hynny, oherwydd nid yw perthyn i grŵp penodol o reidrwydd yn dynodi angen.

Gallai'r anghenion hyn fod yn syml iawn (fel bod angen cael mynediad i'r rhyngrwyd i'r cyhoedd) neu ymwneud ag anghenion unigol mwy cymhleth a gallant fod yn rhai tymor byr, tymor hir neu'n fynych. Mae'r ffocws ar sicrhau ein bod yn nodi pawb sydd angen cymorth, pan fydd ei angen arnynt a’n bod yn darparu’r cymorth hwnnw.

Er ein bod yn anelu at nodi a chynorthwyo hawlwyr ag anghenion ychwanegol cyn gynted â phosibl drwy ein proses flaenoriaethu, gall hawlwyr UC ddilyn y broses safonol i hawlwyr, oni bai neu hyd nes eu bod yn cael anhawster yn delio â gofynion ein prosesau, ar adeg pan fydd angen iddynt gael mynediad i wasanaeth. Mae helpu hawlwyr ag anghenion ychwanegol i allu llywio drwy'r broses UC eu hunain yn hanfodol er mwyn iddynt fod yn hunangynhaliol ac annibynnol.

Er y bydd UC yn ddigidol ei natur, bydd gwasanaethau telephoni ac wyneb yn wyneb ar gael o hyd i'r rheini sydd wir eu hangen.

**Cyflwyno UC fesul cam**

Mae DWP yn bwriadu cyflwyno UC fesul cam, gan ddechrau ym mis Ebrill 2013 gyda Ardal Arbrofol Manceinion Fwyaf. Ar y dechrau, bydd UC yn disodli ceisiadau newydd gan geiswyr gwaith sengl o oedran gweithio mewn ardaloedd cod post penodol wedi'u diffinio. Yn ystod Cam 2, rhwng mis Hydref 2013 a mis Mawrth 2014, rydym yn bwriadu ymestyn y gwasanaeth i gynnwys ceiswyr gwaith â phlant, cyplau a pherchen-feddiannwyr, gan ehangu'r gwasanaeth yn raddol i leoliadau ledled Prydain. Bwriedir cwblhau'r broses o symud hawlwyr presennol o'r hen system i'r un newydd erbyn diwedd 2017.

| Dyddiad | Cam | Gweithgaredd Gweithredu |
|---|---|---|
| Ebrill 2013 | Cam 1 Ardaloedd Arbrofol | UC yn dechrau yn y pedwar awdurdod ardaloedd arbrofol â cheiswyr gwaith sengl: Tameside, Warrington, Oldham a Wigan |
| Hydref 2013 – Mawrth 2014 | Cam 2 Cyflwyno fesul cam | Cyflwyno UC yn estynedig mewn camau ledled Prydain |
| Ebrill 2014 – 2017 | Camau 3+ Cyflwyno'n gyffredinol | Bwriedir cwblhau'r broses o weithredu UC yn genedlaethol erbyn diwedd 2017 |

Bwriedir i'r fframwaith hwn ddarparu sail er mwyn i DWP ac ALlau ddechrau cynllunio gwasanaethau, darparu adnoddau, a gofynion y gweithlu **yn ystod cam 2 o'r rhaglen weithredu**. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynir UC i lawer o hawlwyr allan o waith ledled Prydain. Bydd pob ardal awdurdod lleol yn rhan o'r broses gyflwyno, ond i'r rhan fwyaf, bydd yr effaith yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14 yn gyfyngedig gan y bydd y niferoedd yn isel.

**Sut mae'r fframwaith yn ymwneud â chamau rhaglen UC**

Rydym yn cyhoeddi'r fframwaith nawr er mwyn rhoi amser i gynllunio Cam 2. Disgwylir i wersi a ddysgwyd o'r Ardaloedd Arbrofol lywio fersiynau o'r fframwaith yn y dyfodol ond nid ydym yn bwriadu i'r fframwaith presennol hwn fod yn berthnasol i Gam 1.

Ebrill 2013 - Hydref 2013: Cam 1 UC (Ardaloedd Arbrofol)

Mae trefniadau partneriaeth unigol Cam 1 (Ardaloedd Arbrofol) eisoes wedi'u cytuno rhwng tîm ardaloedd arbrofol rhaglen UC a'r pedwar awdurdod sy'n cymryd rhan (Oldham, Tameside, Warrington a Wigan). Mae'r rhain yn seiliedig ar fwydlen o wasanaethau wedi'u teilwra a gyflwynwyd gan bob awdurdod lleol, ac ar ragfynegiadau a monitro niferoedd a lefelau gwasanaeth. Mae trefniadau cynllunio ac ariannu eisoes ar waith ar gyfer y gwasanaethau hyn er mwyn cychwyn ym mis Ebrill ac **nid yw'r fframwaith hwn yn effeithio arnynt**.

Hydref 2013 – Mawrth 2014: Cam 2 UC (cyflwyno fesul cam)

Bydd y fframwaith hwn yn rhoi sail cynllunio ar gyfer Cam 2. Yn lleol, bydd DWP ac ALlau yn defnyddio'r wybodaeth yn y fframwaith hwn i gynllunio a datblygu gweithio mewn

partneriaeth yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2013 a Mawrth 2014. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd UC yn dechrau cael ei ymestyn ar draws Prydain.

### Datblygu'r fframwaith

Byddwn yn defnyddio dysgu o'r Ardaloedd Arbrofol, ac o weithgareddau peilot a phrofi eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y prosiectau arddangos taliadau uniongyrchol[4]; cynlluniau peilot o dan arweiniad ALlau[5]; treialon arloesol byw, ymchwil ar safbwynt cwsmeriaid, a'r fenter Hyrwyddwyr Hawlwyr. Byddwn hefyd yn parhau â'n deialog rhwng y llywodraeth, awdurdodau lleol, darparwyr tai, asiantaethau cynghori a chyrff eraill.

Byddwn yn cyflwyno fersiwn fwy cynhwysfawr o'r fframwaith (Fersiwn 2) erbyn Hydref 2013, mewn pryd i lywio trefniadau cynllunio cyllidebau ALlau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15. Bydd hyn yn ffurfio sail ar gyfer cynllunio'r gwasanaeth yng Ngham 3 o'r rhaglen a'r tu hwnt (cyflwyniad cyffredinol), pan gaiff UC ei ymestyn yn llawn i bob hawliwr o oedran gweithio.

Ein bwriad ar hyn o bryd yw parhau i ddiwygio'r fframwaith er mwyn hwyluso dysgu, profion a gwelliannau pellach, ym mhob blwyddyn olynol er mwyn cyrraedd terfyn amser mis Hydref. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn y cyflwyniad hwn, gweledigaeth dymor hwy'r llywodraeth yw creu model mwy amrywiol o ddarparu gwasanaeth. Gall hyn ddisodli'r fframwaith maes o law.

---

[4] Cynhelir cyfres o brosiectau arddangos mewn chwe ardal awdurdod lleol er mwyn profi sut mae hawlwyr yn rheoli eu harian pan delir eu budd-dal tai yn uniongyrchol iddynt hwy yn hytrach na'u landlordiaid. Dechreuodd y Prosiectau Arddangos Taliadau Uniongyrchol ym mis Mehefin 2012 a byddant ar waith hyd at fis Mehefin 2013. Defnyddir y canfyddiadau er mwyn helpu i lunio'r cyngor ariannol a'r cymorth y bydd Credyd Cynhwysol yn eu cynnig i hawlwyr.

[5] Dechreuwyd 12 cynllun peilot o dan arweiniad ALlau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ystod hydref 2012. Nod y cynlluniau peilot yw profi a llywio model cyflenwi CC o fis Hydref 2013 drwy ystyried y ffordd o sicrhau bod y broses yn syml i hawlwyr; gan hyrwyddo cydweithredu; profi'r broses flaenoriaethu, cymorth cyllidebau ar-lein a ffocws ar waith.

## Adran 3: Pa wasanaethau y bydd eu hangen?

Mae'r system budd-daliadau bresennol eisoes yn galw ar nifer o wasanaethau i gael eu darparu'n lleol ar gyfer hawlwyr. Bydd llawer o'r rhain yn parhau. Rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau yn newid; bydd rhai yn dirywio, (er enghraifft y gwasanaeth cynghori estynedig sydd ei angen i wasanaethau'r rhwydwaith gymhleth o fudd-daliadau presennol); tra y bydd eraill yn aros ar yr un lefel (er enghraifft, cymorth i hawlwyr digartref). Fodd bynnag, oherwydd y bydd UC yn cyflwyno rhai newidiadau, bydd nifer o ofynion newydd graddol, yn arbennig yn ystod y cyfnodau trosglwyddo cynnar, ac mae'r fframwaith hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r gofynion newydd hyn.

Mae'r adran hon yn nodi'r canlyniadau lefel uchel y dylai gwasanaethau cymorth fod yn anelu at eu cyflawni, a'r gwasanaethau craidd y gallai fod eu hangen er mwyn rhoi cymorth i hawlwyr UC. Rhagwelwn y caiff yr holl wasanaethau a ddarperir o dan y fframwaith eu darparu drwy'r Dull Partneriaeth Gyflenwi a nodir yn nes ymlaen yn y ddogfen hon. Mae hyn yn golygu y caiff pwy sy'n cael arian i ddarparu gwasanaethau cymorth eu penderfynu'n lleol. Bydd hyn yn sicrhau y darperir gwasanaeth sy'n hyblyg ac yn sensitif i anghenion lleol, ac sy'n gwneud y defnydd gorau o'r capasiti sy'n bodoli'n lleol. Gall partneriaethau cyflenwi lleol benderfynu bod mwy o wasanaethau neu wasanaethau gwahanol na'r rhai a drafodir yma eu hangen i gyflawni canlyniadau diffiniedig y Gwasanaethau Cymorth Lleol ar gyfer hawlwyr lleol. Dylai strwythur sy'n seiliedig ar ganlyniadau y fframwaith ei gwneud yn bosibl i'r hyblygrwydd yna fod ar gael.

**Meini prawf llwyddiant a chanlyniadau**

Mae'n rhaid i wasanaethau cymorth lleol ganolbwyntio ar ddarparu canlyniadau priodol ar gyfer hawlwyr, cymunedau a'r gymdeithas yn ehangach. Er y bydd unigolion yn cyflwyno heriau penodol, ac felly y bydd angen llwybr wedi'i deilwra arnynt i ddod â hwy'n agosach at y farchnad lafur, mae'r meini prawf eang ar gyfer llwyddiant fel a ganlyn:

- Creu gwasanaeth sy'n hawdd i hawlwyr, asiantau ac ymgynghorwyr ei ddefnyddio, ei ddeall a chael mynediad iddo - gan roi hyder iddynt yn y system;
- Helpu unigolion, yn arbennig y rheini sydd angen cymorth ychwanegol, i wneud a rheoli cais i UC;
- Darparu gwasanaeth cymorth cydgysylltiedig a chyfannol i hawlwyr gan sicrhau bod cyn lleied o asiantaethau gwahanol yn trosglwyddo gwasanaethau;
- Gwella cymhelliannau i weithio'n sylweddol a chydnabod bod gwaith yn talu; a
- Cynyddu nifer y bobl mewn cyflogaeth o gymharu â'r un pwynt ar y cylch economaidd blaenorol.

Prif nod y rheini sy'n darparu gwasanaethau o dan y fframwaith fydd creu "taith hawliwr sengl" o fod yn ddibynnol i fod yn hunangynhaliol ac yn barod i weithio, cyn belled a phosibl, a dylai pob darparwr gwasanaeth fod yn gyson â'i gilydd. I'r perwyl hwn, bydd DWP a phartneriaid cyflenwi yn nodi canlyniadau penodol sydd eu hangen ar hawlwyr unigol er mwyn eu helpu i'w symud yn agosach at y farchnad lafur ac annibyniaeth ariannol.

Efallai y bydd angen mwy o gymorth ar rai hawlwyr sydd â gofynion mwy cymhleth, fel pobl ag anghenion iechyd meddwl, anableddau dysgu neu sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol, neu sy'n ddigartref, gan gynnwys sawl asiantaeth wahanol, o'r cychwyn. Efallai y bydd angen i wasanaethau amrywio er mwyn ystyried daearyddiaeth, poblogaeth a

seilwaith lleol - er enghraifft, mynediad a theithio i wasanaethau ar gyfer hawlwyr mewn ardaloedd gwledig. I'r holl hawlwyr hyn, bydd yn hanfodol sicrhau bod gwasanaethau y tu ôl i daith hawliwr sengl yn gyson â'i gilydd er mwyn eu helpu i symud yn agosach at annibyniaeth, cyfraniad yn y gweithlu a chynhwysiant cymdeithasol llawn.

Er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn, rydym yn disgwyl y bydd partneriaethau cyflenwi lleol yn dymuno cynnwys y gwasanaethau presennol a newydd canlynol yn eu cynnig o wasanaeth lleol i hawlwyr UC, er nid ydym yn bwriadu y dylai cytundebau partneriaeth o dan y fframwaith hwn ddiystyru amrywiad ac arloesedd lleol drwy ymagwedd or-ragnodol i'r cynnig lleol.

**Adeiladu ar wasanaethau presennol sy'n rhoi cymorth i hawlwyr yn lleol**

Mae DWP, Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol a/neu Sefydliadau Gwirfoddol a Chymunedol eisoes yn darparu nifer o wasanaethau allweddol i roi cymorth i hawlwyr budd-daliadau a bydd y gwasanaethau hyn yn parhau, a gallant gynyddu.

- **Cymorth ymgynghorwyr**: Cymorth wedi'i deilwra, ac weithiau arbenigol, i hawlwyr ag anghenion cymhleth, yn amrywio o broblemau llythrennedd i anabledd. Gall hyn hefyd gynnwys helpu hawlwyr i gael mynediad i wasanaethau cymorth eraill a gweithio, mewn ffordd gyfannol a chydgysylltiedig, â darparwyr gwasanaeth er mwyn paratoi taith hawliwr sengl tuag at annibyniaeth a, lle y bo'n briodol, cyflogaeth. Cefnogir hawlwyr sy'n ddigartref ar hyn o bryd gan ALlau a disgwyliwn i'r trefniant hwn barhau o dan y Credyd Cynhwysol;
- **Ymweliadau cartref**: Er mwyn rhoi cymorth i'r rheini â'r anghenion mwyaf cymhleth;
- **Gwirio tystiolaeth sy'n ategu cais UC**: DWP fydd yr unig sefydliad i sicrhau cymhwysedd drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb i asesu'r risg fod cais yn un twyllodrus. Fodd bynnag, rydym yn croesawu asiantaethau lleol i helpu i ddilysu tystiolaeth o amgylchiadau hawliwr er mwyn gallu prosesu cais yn gyflym ac yn effeithlon ac yn awyddus i archwilio'r posibiliadau yn hyn o beth ymhellach;
- **Nodi achosion lle bo angen gwneud eithriad i reolau talu budd-daliadau arferol**: Ar hyn o bryd, prosesir eithriadau presennol i reolau talu budd-daliadau arferol gan ALlau a DWP. Gall ALlau benderfynu talu'r Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol i landlord preifat, yn hytrach na'r tenant, a gall DWP benderfynu talu budd-daliadau'n amlach mewn achosion eithriadol. O dan UC, bydd angen cymorth lleol o hyd er mwyn nodi eithriadau posibl ond DWP fydd yn pennu pa hawlwyr sy'n gymwys am newid o'r rheolau talu arferol, a phrosesu'r newid.
- **Cymorth ynghylch dewisiadau tai**: Mae'n cynnwys gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol a chyfryngu â landlordiaid preifat yn lleol er mwyn sicrhau y byddant yn parhau i ddarparu tai i hawlwyr budd-daliadau. Bydd angen cymorth lleol hefyd i sicrhau bod llety yn briodol ac yn diwallu unrhyw anghenion arbennig a allai fod gan hawliwr; a
- **Cymorth brys er mwyn datrys problem gyda chais**: Mae hyn yn cynnwys y cymorth a ddarperir ar hyn o bryd gan dimau Mynediad i Wasanaethau Canolfannau Gwaith DWP i helpu i ddatrys ymholiad brys gan hawliwr a'r cymorth cyfatebol i hawlwyr a ddarperir ar hyn o bryd drwy siopau-un-stop ALl, Canolfannau Cyngor ar Bopeth, cymdeithasau tai ac amrywiaeth o wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol.

Byddem am gynnal dull cydgysylltiedig ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â thai, yn arbennig ar gyfer yr hawlwyr hynny sydd fwyaf mewn angen neu mewn risg:

- Cynnal cysylltiadau tai er mwyn sicrhau bod tai ar gael;
- Meithrin a gwella cydberthnasau â darparwyr tai er mwyn lleihau'r risg o ddigartrefedd, gorfeddiannaeth a llety amhriodol, gan gynnwys ymholiadau landlordiaid; ac
- Cynnal taliadau rhent ar gyfer hawlwyr a landlordiaid mewn ffordd sy'n brydlon, yn effeithiol ac yn gosteffeithiol i arian cyhoeddus.

**Gwasanaethau i gefnogi nodweddion newydd UC**

Yn ogystal â datblygu gwasanaethau presennol, mae UC hefyd yn creu cyfleoedd newydd yn lleol ar gyfer gwasanaethau newydd.

Blaenoriaethu ac ail-gyfeiriadu

Er mwyn mynd i'r afael â chyswllt cychwynnol hawliwr, ac unrhyw symudiad dilynol i wasanaethau priodol er mwyn diwallu eu hanghenion, dylem sicrhau'r canlynol:

- Caiff unrhyw gymorth sydd ei angen drwy gydol y broses ei flaenoriaethu'n briodol;
- Caiff hawlwyr eu hannog i fod yn hunangynhaliol;
- Caiff aelodau presennol o staff eu hyfforddi a'u datblygu er mwyn nodi a gofalu am hawlwyr a allai fod angen help ychwanegol;
- Gellir nodi hawlwyr â chyflwr iechyd meddwl, angen dysgu neu broblem gyda'r cof yn hawdd drwy gydol y broses; a
- Caiff hawlwyr eu helpu i gael mynediad i wasanaeth UC drwy sianel sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion, gan gofio mai cynhwysiant digidol yw'r nod.

Gallai canlyniadau cadarnhaol llwyddiannus gynnwys y canlynol:

- Bydd hawlwyr yn magu hyder ac ymddiriedaeth yn y cymorth cydgysylltiedig a roddwn fel y byddant yn fwy parod o ryngweithio'n gymdeithasol, â busnesau a gwaith yn y dyfodol;
- Bydd hawlwyr yn teimlo bod gennym ddiddordeb gwirioneddol yn eu cynorthwyo drwy ein proses. Byddant yn gwella eu sgil wrth lywio drwy ein prosesau a byddant yn hapusach i ryngweithio â ni pan fyddwn yn ceisio eu cefnogi i mewn i waith; a
- Bydd hawlwyr yn gallu cael mynediad i gymorth gan amrywiaeth o sianelu a phobl/sefydliadu y maent yn ymddiried ynddynt, gan roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i symud ymlaen drwy'r broses gan wella eu hunanhyder ac arwain y ffordd at fod yn hunangynhaliol. Bydd hefyd yn helpu i ymchwilio i ba gymorth ychwanegol sydd ar gael i'w helpu i wella eu bywydau.

Cymorth ar-lein

Bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n hawlio UC yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd. Canfu arolwg o hawlwyr presennol fod 78%[6] ohonynt eisoes yn defnyddio'r Rhyngrwyd, er mai ond cyfran fechan sy’n ei defnyddio i wneud trafodion budd-dal. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen help ar rai pobl. Drwy alluogi hawlwyr i wneud a chynnal eu cais ar-lein, dylem sicrhau'r canlynol:

[6] *Gwaith a’r system lles: arolwg o’r rhai sy’n cael budd-daliadau a chredydau treth.* Adroddiad ymchwil 800 yr Adran Gwaith a Phensiynau

- Caiff hawlwyr eu helpu a'u hannog i ddewis y dull ar-lein;
- Caiff hawlwyr eu helpu i gael mynediad i gyfrifiaduron a band eang lle nad oes ganddynt gysylltiad preifat gartref.   Gall ardaloedd gwledig lle nad yw band eang ar gael yn helaeth eto gyflwyno her arbennig y bydd angen ei rheoli â chymorth lleol;
- Gall hawlwyr gael help uniongyrchol wrth wneud ceisiadau ar-lein, er enghraifft, cymorth dros y ffôn neu wyneb yn wyneb wrth wneud trafodion; a
- Caiff hawlwyr eu cefnogi i fagu eu hyder gan eu galluogi i reoli eu cyfrif UC a gwneud trafodion ar-lein;

Gallai canlyniadau cadarnhaol llwyddiannus gynnwys y canlynol:

- Bydd gan hawlwyr fwy o gymhelliant i wneud ceisiadau ar-lein.  Bydd ganddynt gymhwysedd a sgiliau llywio gwell a fydd yn eu helpu pan fydd angen iddynt ddefnyddio sgiliau TG at ddibenion eraill;
- Bydd gan hawlwyr y cymhelliant a'r sgil i achub ar gyfleoedd dysgu a datblygu er mwyn gwella eu sgiliau TG er mwyn dod â hwy'n agosach at y farchnad lafur;  a
- Pan fydd hawlwyr yn llwyddo i gael cymorth ar-lein, bydd eu hyder wrth reoli eu cyfrifon eu hunain yn codi.  Bydd hyn yn gwella hyder a chymhwysedd wrth ddelio â Pharu Swyddi Ar-lein, cyrsiau hyfforddi eraill ac ati

Cyngor Ariannol

O dan Gredyd Cynhwysol, bydd angen i hawlwyr reoli eu cyllidebau eu hunain er mwyn eu paratoi i symud yn ôl i'r gwaith.  Fodd bynnag, bydd angen help a chefnogaeth ychwanegol ar rai hawlwyr er mwyn eu helpu i ymdopi â'r newidiadau ariannol yn sgil UC.  Bydd yr help hwn yn sicrhau'r canlynol:

- Bydd DWP yn nodi hawlwyr sydd angen cyngor ariannol y gellir ei ddiwallu drwy gyfeirio at ddarparwr allanol;
- Bydd DWP yn nodi hawlwyr y bydd angen eu hystyried ar gyfer trefniadau talu amgen o'r cychwyn.;
- Bydd partneriaid lleol yn gwneud argymhellion i wasanaethau cyngor ariannol ar gyfer hawlwyr sy'n dewis gwella eu sgiliau cyllidebu a rheoli arian drostynt eu hunain;  a
- Bydd partneriaid lleol yn cynnwys gwasanaethau cynghori arian lleol er mwyn helpu hawlwyr sydd angen cymorth ychwanegol i fod yn fwy cymwys

Trefniadau talu amgen

Caiff eithriadau i'r rheolau talu arferol eu rheoli a'i gweinyddu'n ganolog gan DWP, er enghraifft:

- Talu elfen costau tai cais i landlord;
- Rhannu elfen lwfans personol UC rhwng dau oedolyn o'r un cartref lle bo cam-drin ariannol;  a
- Talu UC yn amlach er mwyn helpu i gyllidebu.

Gallai Partneriaid Cyflenwi Lleol chwarae rôl yn y canlynol:

- Helpu i nodi achosion lle y gall eithriad i'r rheolau talu UC arferol fod yn briodol;

- Cyfeirio hawlwyr i wasanaeth taliadau amgen er mwyn i'w cais gael eu hystyried o dan y rheolau ar gyfer taliadau amgen;
- Cymorth i symud oddi ar daliadau eithriadol; a
- Cyfryngu, yn lleol, rhwng landlordiaid a hawlwyr i helpu hawliwr i gadw tenantiaeth.

Bydd DWP yn cyflawni'r canlynol:

- Nodi hawlwyr sydd i'w gweld yn bodloni'r meini prawf ar gyfer trefniadau talu amgen o gychwyn cais a chyfeirio'r ceisiadau hyn ar gyfer trefniadau talu amgen; a
- Penderfynu ar drefniadau talu amgen (lle bynnag y daw'r cyfeiriad) gan nodi dyddiad arolygu ac arolygu'r eithriadau a ganiatawyd yn rheolaidd.

Gall canlyniadau cadarnhaol llwyddiannus ar gyfer hawlwyr gynnwys y canlynol:

- Bydd hawlwyr yn gallu rheoli eu harian bob mis ac ni fydd angen unrhyw eithriadau talu (neu rai pellach) arnynt mwyach;
- Bydd gan hawlwyr yr hyder a'r cymhelliant i reoli eu harian ac yn gallu cwblhau a chynnal cynllun gweithredu cyllidebu sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau;
- Bydd hawlwyr yn deall newidiadau ariannol UC a'r hyn y maent yn ei olygu o ran rheoli eu harian ac yn gallu ateb ychydig o gwestiynau i gadarnhau'r hyn y maent wedi'i ddeall a'i ddysgu e.e. beth yw'r tri newid allweddol (taliad misol sengl sy'n cynnwys rhent lle y bo'n briodol), yr hyn y maent yn ei olygu i arian eich teulu; beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol - 'gwirio gwybodaeth'; a
- Bydd hawlwyr yn gwybod am y mathau o gyfrifon banc sydd ar gael, beth maent yn ei gynnig, a ble maent ar gael yn lleol, a manteision pob un o'r cyfrifon banc hynny i'w helpu i reoli eu harian; ac yn gallu sefydlu cyfrif banc a chyflwyno manylion i UC.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cymorth Cyllidebu Bersonol ar gael yn **Atodiad Ch.**

**Cymorth sy'n gysylltiedig â gwaith**

Mae cymhellion gwell i weithio, a ffocws ar waith, wrth wraidd diwygiadau lles y Llywodraeth a bydd argaeledd cymorth lleol sy'n canolbwyntio ar waith yn allweddol i helpu hawlwyr i ddod yn agosach at y farchnad lafur ac, yn y pen draw, i mewn i waith.

Nid yw'r fframwaith hwn yn cynnwys cymorth gwasanaeth gwaith statudol (cymorth ac ymyraethau i gynnal ymrwymiad yr hawliwr a gofynion amodoldeb). Bydd hyn yn parhau i gael ei ddarparu gan DWP a darparwyr y Rhaglen Waith yn unol â'u darpariaethau o dan gontract.

Mae'r fframwaith hwn, fodd bynnag, yn cydnabod gwerth prosiectau a rhaglenni lleol a chymunedol sy'n helpu hawlwyr yn ôl i'r gwaith, yn arbennig hawlwyr ag anghenion cymhleth ac mae DWP yn awyddus i bartneriaethau cyflenwi allu ystyried sut y gellir darparu datblygiad cyflenwol sy'n ymwneud â gwaith, y tu hwnt i'r hyn a ddarperir drwy gymorth gwasanaethau gwaith statudol, i hawlwyr fel rhan o'r daith hawliwr sengl.

Gellir anelu gweithgareddau partneriaid i gynorthwyo hawlwyr i symud yn agosach at y farchnad lafur at hawlwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Rhaglen Waith neu gallent fod yn fentrau arbennig sydd wedi'u targedu at ddatblygu sgiliau priodol i fodloni'r galw yn y farchnad lafar leol.

## Adran 4: Dull gweithio mewn partneriaeth

Mae'r adran hon yn nodi manteision gweithio mewn partneriaeth, gan esbonio sut y disgwyliwn weithredu'r dull hwn yn lleol, ar draws awdurdodau neu is-ranbarthau er mwyn darparu'r gwasanaethau hyn a nodir yn y fframwaith, a disgrifio'r trefniadau lleol y bydd angen eu sefydlu.

**Partneriaethau Cyflenwi**

Bydd gwasanaeth cymorth lleol o 2013 ymlaen yn darparu sylfaen y gellir adeiladu gwasanaeth integredig arni. Fel rydym wedi awgrymu'n flaenorol, ein nod yw sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn gwella'n barhaus y gwasanaethau a fydd yn helpu hawlwyr ag anghenion ychwanegol i fod yn hunangynhaliol, yn ariannol annibynnol ac yn gynhyrchiol.

Mae diwylliant o welliant parhaus a defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon wrth wraidd hyn, er mwyn sicrhau bod UC yn darparu gwerth am arian ac yn cymryd camau'n barhaus i wella gallu hawlwyr. Dylai hyn arwain at ffyrdd arloesol o weithio i'r holl sefydliadau hynny sy'n darparu gwasanaethau'n lleol.

Mae asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd i ddarparu gwasanaethau i hawlwyr ag anghenion cymhleth yn allweddol er mwyn ddatgloi potensial hawlwyr â gofynion ychwanegol. Rydym am ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar hawlwyr, tra'n gadael i'n partneriaid reoli manylion ynghylch darparu gwasanaeth yn lleol mewn ffordd hyblyg ac ymatebol. Rydym yn rhannu'r gred mai partneriaid lleol sydd yn y sefyllfa orau i wneud y canlynol:

- Helpu hawlwyr i gael mynediad i'r porth ar-lein a'i ddefnyddio
- Defnyddio eu profiad i helpu hawlwyr gyda chyngor ariannol;
- Cynnig hyblygrwydd - bydd angen yr angen am cymorth yn newid dros amser, felly mae angen i ni gael datrysiad hyblyg sy'n datblygu
- Manteisio ar seilwaith presennol er mwyn cefnogi hawlwyr yn lleol;
- Helpu mentrau cyflogaeth lleol a chymorth DWP ar y farchnad lafur i gydweithio'n effeithiol; ac
- Galluogi gwasanaethau cyfannol gyda'r hawliwr i fod wrth wraidd y ddarpariaeth, yn arbennig i'r rhieni â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Bydd DWP ac ALl yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni'r gwasanaethau a nodir yn y fframwaith hwn, er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodir yn Adran 3 tra'n datblygu rhagor o ganlyniadau yn seiliedig ar anghenion unigol a'r daith hawliwr sengl sydd eu hangen ar bob hawliwr. Bwriad DWP yw gweithio gyda phartneriaid awdurdod lleol er mwyn penderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau penodol a pha wasanaethau y dylid eu darparu drwy sefydliadau eraill, lle bo hyn yn darparu'r canlyniad gorau ar gyfer yr hawliwr. Bydd y dull gweithio mewn partneriaeth yn hyblyg er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried newidiadau sy'n gymwys mewn rhannau gwahanol o Brydain.

Bydd gweithredu'r dull gweithio mewn partneriaeth yn seiliedig ar gynllun tri phwynt:

1. Dylai DWP ac ALlau nodi partneriaethau cyflenwi lleol sy'n bodoli eisoes yn eu priod ardaloedd lleol. Bydd angen iddynt adolygu aelodaeth a sicrhau y caiff DWP ac ALlau

eu cynrychioli. Yn yr Alban, mae'n debygol mai'r trefniadau partneriaethau cynllunio cymunedol fydd y prif gyfrwng dros weithio ar y cyd.

2. Dylai'r DWP ac ALlau, mewn cydweithrediad ag eraill, sicrhau y gall y partneriaethau a'r fforymau hyn gyflawni gofynion grwpiau cyflenwi UC, drwy sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol (er enghraifft, gwybodaeth arbenigol er mwyn gallu delio â hawlwyr y mae bod yn gaeth i gyffuriau neu ddigartrefedd wedi effeithio arnynt); bod ganddynt y gallu cyflenwi i fodloni gofynion; a'u bod yn gallu cynllunio a threfnu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymorth lleol ar gyfer hawlwyr UC. Byddant yn cytuno ar gylch gorchwyl y fframwaith cyflenwi UC. O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd angen sefydlu fforwm newydd i weithredu fel grŵp cyflenwi.

3. Bydd partneriaethau cyflenwi lleol ar gyfer UC yn cytuno pwy fydd yn darparu pa wasanaethau cymorth penodol i hawlwyr ac yn cynnwys y rhain mewn cytundeb partneriaeth cyflenwi.


Disgwyliwn y bydd partneriaethau cyflenwi lleol am wneud y canlynol:

- Cynllunio, monitro, adolygu a gwerthuso’r ffordd y caiff gwasanaethau cymorth lleol eu darparu a'u cyflenwi;
- Nodi darparwyr gwasanaethau a dod â hwy ynghyd er mwyn bodloni gofynion y cytundeb partneriaeth cyflenwi;
- Datblygu 'canllaw cymorth lleol', sy'n dangos patrymau o angen a'r gwasanaethau a ddarperir er mwyn diwallu anghenion penodol yn yr ardal;
- Nodi blychau yn y gwasanaethau a ddarperir neu allu darparwyr gwasanaethau;
- Gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a'u cydlynu; a
- Rhannu gwybodaeth am UC a datblygiad y rhaglen a dysgu o weithgaredd peilot a'r ardaloedd arbrofol.

**Strwythur Partneriaethau**

Lle bo gan ALlau y gallu a'r awydd i fod yn bartneriaid cyflenwi, bydd y Strwythur Partneriaethau yn ffordd o gytuno ar amrywiaeth o wasanaethau cymorth lleol a'u darparu. Lle bo Darparwyr Trydydd Sector a/neu bartneriaid lleol eraill yn cyfrannu cymorth ychwanegol at y ALlau wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny, mae'n debygol y caiff hyn ei gomisiynu drwy'r ALl er mwyn diwallu anghenion lleol.

Mae'r model cyffredinol ar gyfer y Strwythur Partneriaethau isod yn seiliedig ar brif bwyntiau'r ymgysylltiad rhwng cynrychiolwyr UC (yn bennaf ar lefel Dosbarth) a chynrychiolwyr ALl er bod materion yn ymwneud â sut mae dosbarthiadau daearyddol DWP yn gorwedd ar haenau a ffiniau cynghorau efallai y bydd angen eu hystyried fel rhan o hyn.




Wrth bennu sut y bydd partneriaeth yn gweithio yn ymarferol, y dybiaeth gyffredinol yw bydd angen cytundeb partneriaeth ysgrifenedig ar UC ac ALlau er mwyn tanategu darpariaeth gwasanaethau a'r trefniadau ariannu a thalu cysylltiedig.

Rydym yn bwriadu y dylai'r Strwythur Partneriaethau gynnwys:

- Cytundeb Partneriaeth Cyffredinol (OPA), wedi'i lofnodi ar lefel gorfforaethol rhwng DWP a chyrff sy'n cynrychioli ALlau (y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a COSLA). Byddant yn gosod nifer o dermau, rhwymedigaethau a disgwyliadau cyffredinol sy'n berthnasol i bob un o bartneriaethau cyflenwi DWP ac ALl a byddant yn annog datblygiad o Drefniadau Partneriaethau Cyflenwi (DPA) lleol; a
- Cyfres o Drefniadau Partneriaethau Cyflenwi (DPA) lleol.

Dylai DPA gynnwys trefniadau ariannu a llywodraethu cysylltiedig. Dylai trefniadau gael eu cyfathrebu'n lleol i staff rheng flaen a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y rheini sy'n cynrychioli grwpiau hawlwyr. Bydd DWP yn darparu'r cynhyrchion dysgu a datblygu priodol, y gellid eu darparu gan DWP ac ALlau, gan adlewyrchu trefniadau lleol.

Mae **Atodiad D** yn dangos enghreifftiau o OPA a DPA mae DWP wedi'u datblygu i gefnogi gweithio mewn partneriaeth ag ALlau.

## Adran 5: Model ariannu a strwythur cymhellion

### Egwyddorion model ariannu

Rydym yn cynllunio ein model ariannol gyda'r egwyddorion canlynol mewn cof:

- Fforddiadwyedd - yn cwmpasu costau ac yn darparu gwerth am arian;
- Symlrwydd - dylent fod yn syml i'w deall a'u gweinyddu;
- Cymell - dylid cymell partneriaid cyflenwi i ddarparu gwasanaeth i hawlwyr sy'n eu symud tuag at fod yn hunangynhaliol, annibynnol a lle y bo'n bosibl, gwaith, fel rhan o lefel o wasanaeth y cytunwyd arni, yn gyson â'r daith hawliwr sengl;
- Seiliedig ar ganlyniadau - yn annog canlyniadau cadarnhaol gan hawlwyr;
- Hyblygrwydd - dylent gefnogi hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaethau (e.e. caniatáu ar gyfer amrywiadau lleol);
- Tryloywder - dylai'r ffordd y caiff canlyniadau eu mesur a'u gwobrwyo fod yn eglur
- Wedi'i dargedu - yn ariannu newidiadau newydd neu sylweddol i niferoedd y gwasanaethau presennol; ac
- Yn bodloni egwyddorion a nodau UC ehangach.

### Lefel o ariannu

Caiff cyfanswm y lefel o ariannu blynyddol ei bennu drwy ystyried amcangyfrif o gyfanswm y costau gwasanaeth. Mae DWP yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau awdurdodau lleol i amcangyfrif cost gwasanaethau cymorth lleol. Caiff yr arian ei addasu lle bo ymyraethau gwasanaeth yn cyfrannu at gyflawni amcanion strategol a rennir sy'n gyffredin i DWP ac ALlau a lle bo arian llywodraeth ganolog a lleol eisoes yn cyfrannu at y gwasanaethau a ddarperir. Disgwylir i ALlau barhau i roi cyngor a chymorth ar les, cyngor ar dai a datrysiadau i'w preswylwyr o drefniadau ariannu presennol.

### Dosbarthu a rheoli'r arian newydd

Mae gofyniad i ddarparu gwasanaeth i hawlwyr yn seiliedig ar anghenion lleol. Fel y cyfryw, dylai arian wedi'i ddiffinio'n genedlaethol gael ei ddosbarthu i'r lefel y rheolir y partneriaethau lleol.

Mae nifer o opsiynau wedi'u hawgrymu o ran dosbarthu a rheoli'r arian, gan gynnwys ei reoli'n lleol (gan DWP ac ALlau naill ai ar wahân neu drwy drefniant ar y cyd), ei reoli'n genedlaethol, ac yn yr Alban drwy COSLA neu Lywodraeth yr Alban. Byddwn yn achub ar y cyfle i drafod yr opsiynau hyn - ac eraill o bosibl hefyd - gydag ALlau a phartneriaid cyflenwi eraill (lle y bo'n briodol) yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y papur hwn, cyn cytuno ar benderfyniad terfynol. Fel y sefydliad sy'n gyfrifol am gyflwyno UC, barn DWP ar hyn o bryd yw mai hi ddylai reoli'r arian partneriaethau lleol yn ystod Cam 2, gan ddirprwyo'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd i Reolwyr Dosbarthau.

Fel y nodwyd yn gynharach, bwriadwn i'r fframwaith hwn roi gwybodaeth er mwyn cynorthwyo i gynllunio ar gyfer cam 2 o'r rhaglen (Hydref 2013 - Mawrth 2014). Yn y tymor hwy, gweledigaeth y llywodraeth yw hyrwyddo model mwy amrywiol o'r gwasanaethau a ddarperir. Bydd hwn yn fodel sy'n sicrhau bod gan y partneriaid yr hyblygrwydd i ddarparu gwasanaeth yn y ffordd sy'n fwyaf priodol yn eu barn hwy er mwyn cael y canlyniadau cywir i hawlwyr. At ddibenion y fframwaith hwn, fodd bynnag, mae angen i ni sefydlu trefniadau eglur, ymarferol ac atebol ar gyfer Cam 2.

**Sut y gwneir taliadau**

Ystyrir dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau er mwyn talu gwasanaethau cymorth lleol ar sail y canlynol:

- Sicrhau bod yr hawliwr wrth wraidd y gwasanaethau a ddarperir yn lleol;
- Cymell a mesur effeithiolrwydd perthynol y cymorth a roddir; a
- Rhoi'r hyblygrwydd i ALlau a'u partneriaid sydd ei angen arnynt i ddarparu gwasanaethau i hawlwyr yn y ffordd sy'n fwyaf priodol yn eu barn hwy, yn unol â safonau a nodir yn y Cytundeb Partneriaeth Cyffredinol a'r Cytundeb Partneriaeth Cyflenwi yn unol â darparu data a mireinio a gwella'r gwasanaeth.

Bydd DPAau lleol yn nodi'r uchafswm y byddai DWP yn barod i'w ariannu a'r uchafswm lefel o ariannu y gallai ALlau (a'u partneriaid cyflenwi) ddisgwyl ei chael.

Er mwyn sicrhau y caiff adnoddau eu canolbwyntio ar yr hawlwyr hynny â'r anghenion mwyaf cymhleth, gellir addasu taliadau ar sail canlyniadau er mwyn cymell darparu cymorth i'r unigolion hyn ar eu taith i reoli eu cais UC a'u harian yn annibynnol.

Bydd DWP yn gweithio gydag ALlau a'u partneriaid cyflenwi i ddatblygu'r system gwybodaeth rheoli briodol i fesur canlyniadau a deall effaith gwasanaethau cymorth lleol ar unigolion. Dylid adolygu effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir yn barhaus gan y partneriaethau cyflenwi er mwyn sicrhau y defnyddir adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn diwallu anghenion hawlwyr y gwasanaeth.

Bydd yn fesur o lwyddiant y trefniadau newydd bod yr arian sydd ei hangen yn leihau dros amser wrth i ddibyniaeth leihau ac wrth i ragor o gartrefi allu rheoli eu harian yn annibynnol.

Mae angen cydweithio rhagor dros y misoedd nesaf er mwyn:

- diffinio'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer pob un o'r gwasanaethau cymorth lleol ac ystyried sut y dylai’r rhain gael eu mesur; a
- pennu lefel y taliadau ar gyfer pob canlyniad

## Adran 6: Llywodraethu, atebolrwydd, risg a gwerthuso

### Llywodraethu ac atebolrwydd

Mae'r atebolrwydd cyffredinol ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth UC yn gorwedd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn gweithio gyda'r cymdeithasau ALl i nodi:

- arfer gorau;
- problemau sydd angen eu datrys; a
- cyfleoedd ar gyfer gwella.

Disgwylir y byddai Cytundeb Partneriaeth Cyflenwi yn cael ei weithredu gyda phob un o'r partneriaid cyflenwi ALl gan amlinellu’r cytundeb lleol a threfniadau rheoli. Byddai’n cael ei reoli gan y partner arweiniol a fyddai gyda chyfrifoldeb am gyflawni canlyniadau perfformiad. Bwriedir i'r dull hwn helpu'r gwaith cyflwyno o fis Hydref 2013.

### Rheoli Risg

Gallai risg gael ei reoli fel a ganlyn:

- Risgiau a nodir yn genedlaethol - gellir rheoli'r rhain a'u hadolygu'n rheolaidd yn genedlaethol gyda Chyfarwyddwr UC DWP fel y perchennog; a
- Risgiau a nodir yn lleol – gallai'r gwaith o reoli'r rhain o ddydd i ddydd fod yn gyfrifoldeb lleol, a reolir yn lleol.

Disgwyliwn y byddai proses gyfeirio'n cael ei rhoi ar waith er mwyn helpu i nodi a rheoli risgiau.

### Gwerthuso

Disgwylir y caiff y gwasanaeth lleol ei werthuso mewn modd strwythuredig a pharhaus yn erbyn canlyniadau strategol UC a byddai hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddiant a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. Bydd cylch gwaith unrhyw werthusiad, trefniadau ar gyfer gwerthuso a natur y canlyniadau a ddisgwylir yn cael ei gytuno mewn partneriaeth o fewn fframwaith gytundeb cenedlaethol yr Adran Gwaith a Phensiynau gyda'r cymdeithasau awdurdod lleol.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Anghenion Cymhleth** | Hawliwr ag anghenion sy'n golygu bod angen cymorth manwl a pharhaus ac na ellir eu diwallu gan un trafodyn neu gyswllt penodol. |
| **Anghenion Hawlwyr** | Nodweddion penodol hawlwyr sy'n golygu bod angen rhyngweithio â UC mewn ffordd benodol a/neu gyda chymorth penodol er mwyn gwneud hynny'n llwyddiannus. |
| **Amodoldeb** | Amodoldeb - Mae'n rhaid i'r hawliwr fodloni rhai gofynion penodol er mwyn derbyn budd-daliadau. O dan UC, bydd pedwar math o ofyniad sy'n gysylltiedig â gwaith:<br>• cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith<br>• paratoi at waith<br>• chwilio am waith<br>• argaeledd i weithio<br>Caiff gofynion eu teilwra lle y bo'n briodol i adlewyrchu amgylchiadau a gallu hawliwr. |
| **Blaenoriaethu** | Y broses o asesu anghenion hawlwyr ar y pwynt cyswllt cychwynnol a nodi hawlwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt cyn gynted â phosibl ar eu taith. |
| **Cyngor Ariannol** | Bydd Cymorth Ariannol yn helpu’r hawlwyr hynny sy'n hawlio UC i ddysgu i ymdopi â'r gwaith o reoli eu harian yn fisol a thalu eu biliau, gan gynnwys rhent, ar amser. |
| **Cymorth Gwasanaethau Gwaith** | Yr amrywiaeth o gymorth ac ymyriadau i gynnal ymrwymiad ac amodoldeb hawliwr. |
| **Cytundeb Partneriaeth Cyflenwi** | Cytundeb lleol rhwng DWP ac ALl (neu grŵp o ALlau) i ddarparu a rheoli'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn darparu'r UC yn effeithiol. |
| **Gofynion Ansafonol** | Unrhyw ychwanegiadau neu addasiadau i'r set gyflawn o ofynion UC a nodir gan daith yr hawliwr 'safonol', er mwyn sicrhau bod UC yn diffinio, cynllunio a datblygu'r holl wasanaethau er mwyn cynorthwyo hawlwyr yn effeithlon ac effeithiol. |
| **Gofynion Dilysu** | Bydd angen dilysu eitemau amrywiol o dystiolaeth (h.y. pasbort) fel rhan o broses hawlio UC. |
| **Partneriaid Cyflenwi** | Darparwyr gwasanaethau lleol a fydd yn cydweithio â DWP a rhanddeiliaid perthnasol eraill ac a fydd â'r gallu, yr adnoddau a'r hyblygrwydd i ddarparu cymorth a diwallu anghenion hawlwyr lleol. |
| **Taith Hawliwr Safonol** | Caiff taith hawliwr safonol UC ei gwneud ar-lein, gan alluogi hawlwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hawliad a'u taith yn ôl i'r gwaith. |
| **Taith Hawliwr Sengl** | Trefniadau lleol i helpu hawlwyr ag anghenion cymhleth i symud tuag at fod yn annibynnol, yn hunangynhaliol a (lle y bo'n bosibl) yn barod am waith. Dylai pob darparwr gwasanaethau ddilyn y trefniadau hyn, gan sicrhau bod y cymorth a roddir i hawlwyr yn teimlo'n holistaidd ac yn gydgysylltiedig ac nad yw hawlwyr yn cael negeseuon neu gyfarwyddiadau croes gan asiantaethau gwahanol. |

| | |
|---|---|
| **Tystiolaeth o Fanylion Adnabod** | Y broses o gadarnhau manylion adnabod yr hawliwr UC (fel arfer drwy gwrdd â'r hawliwr wyneb yn wyneb). |
| **Ymweliadau Cartref** | O dan amgylchiadau eithriadol, gall fod yn effeithiol ac yn effeithlon i bartner cyflenwi sy'n cefnogi hawliwr y mae angen cymorth ychwanegol arno drefnu apwyntiad i'w weld yn ei gartref. Bydd hyn yn sicrhau y caiff yr hawliwr y cymorth sydd ei angen arno a bydd yn helpu'r partner cyflenwi i ddarparu gwasanaeth effeithiol. |

## Atodiad A: Enghreifftiau o Fodelau Partneriaethau Lleol Presennol

Mae ardaloedd lleol wrthi'n gweithredu nifer o fodelau partneriaeth lleol. Mae'r rhain yn cynnwys

- y partneriaethau a ddefnyddir gan y 12 cynllun peilot a arweinir gan ALlau ledled y DU, sy'n cynnwys cydweithio megis:

  - partneriaeth rhwng Cynghorau Sir Melton, Rushcliffe a Swydd Gaerwrangon a Swydd Nottingham, a sefydliadau sector gwirfoddol lleol i ddarparu cymorth cynhwysiant ariannol;
  - partneriaeth rhwng Cyngor Dosbarth Gogledd Dorset, undeb credyd, CAB, DWP a'r darparwr tai cymdeithasol Spectrum i ddarparu cyngor ar gyllidebu a chymorth i chwilio am swyddi;
  - partneriaeth rhwng Cyngor Dinas Casnewydd, Undeb Credyd a CAB. Mae pob un ohonynt yn rhan o'r Grŵp Llywio Peilot gyda'r nod o ddarparu proses ddigideiddio a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar waith mewn modd cydweithredol i drigolion Cyngor Dinas Casnewydd.

- cyllidebau cymunedol, lle mae gwaith peilot yn y tair bwrdeistref, Manceinion Fwyaf, Essex, Gorllewin Swydd Gaer a Chaer wedi dwyn ynghyd yr holl ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus mewn un man er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol cymhleth fel teuluoedd cythryblus, cyflogadwyedd a sgiliau, a gostwng cyfraddau aildroseddu; mae'r cynlluniau peilot hyn wedi dangos gwelliannau sylweddol o ran canlyniadau i bobl, a llai o alw am wasanaethau, sydd ar gael drwy gydgysylltu ymyriadau sector cyhoeddus lluosog yn well; a

- y gwaith a arweinir gan gynghorau ar deuluoedd cythryblus a gydgysylltir gan Uned Teuluoedd Cythryblus y Llywodraeth, sy'n ceisio cyflwyno model sy'n seiliedig ar un gweithiwr achos ar gyfer pob teulu yn lle ymyriadau lluosog na chânt eu cydgysylltu.

Ceir hefyd ystod eang o fentrau lleol unigol sy'n seiliedig ar wella gwasanaethau i gleientiaid drwy gyfuno darpariaeth sector cyhoeddus a sector gwirfoddol yn unol ag anghenion unigolion a theuluoedd:

- Mae gan Dîm Cyngor ar Arian **Gwasanaeth Tai Cymunedol Solihull** gytundeb â changen leol o Lloyds/TSB sy'n ei alluogi i wneud atgyfeiriadau dros y ffôn a threfnu apwyntiadau ar gyfer unrhyw denant sydd angen cyfrif banc sylfaenol. Hefyd, cyn yr apwyntiad, bydd Gwasanaeth Tai Cymunedol Solihull yn cadarnhau bod gan yr unigolyn y math cywir o fanylion adnabod er mwyn lleihau unrhyw anawsterau wrth wneud cais am gyfrif; ac

- Mae **Cyngor Dinas Manceinion** wedi comisiynu cwmni Peer Mentoring Services i bobl sy'n cael ailasesiad gallu i weithio. Y nod yw gwella gallu sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol drwy hyfforddi staff i ddarparu cymorth, yn benodol i bobl â phroblemau iechyd meddwl, a rhoi cymorth i fynd ymlaen i swydd.

**Atodiad B:** Rôl Bosibl Gwasanaethau Cymorth Lleol drwy gydol Taith Hawliwr

**GWNEUD CAIS – mae gweithgareddau melyn yn dynodi gweithgareddau gan bartneriaid presennol**

| DYSGU AM UC | CREU CYFRIF UC | RHOI MANYLION AR GYFER CAIS | GWELD SWM TEBYGOL Y TALIAD |
|---|---|---|---|
| • Rhoi gwybodaeth am UC a helpu i dywys hawlwyr yn briodol<br>• Cyfeirio hawlwyr at y sianel fwyaf priodol iddynt hwy (yn seiliedig ar anghenion a nodwyd)<br>• Nodi'r hawlwyr hynny a allai fod angen cymorth ychwanegol cyn gynted â phosibl | • Rhoi cymorth o ran mynediad ar-lein<br>• Helpu sut i greu cyfrif gan gynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i wneud hynny<br>• Helpu hawlwyr i wella eu sgiliau ar-lein gan gynnwys sut i gael mynediad i help a chymorth ar-lein | • Helpu hawlwyr i ddeall y wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud cais a sut i'w wneud – gan gynnwys y broses ddiogelwch<br>• Helpu hawlwyr i ddeall sut y gallant roi'r gorau i'w cais dros dro a'i gadw os ydynt am barhau yn ddiweddarach; gan sicrhau eu bod yn deall yr effaith ar eu cais<br>• Helpu hawlwyr i drefnu manylion banc / sefydlu cyfrif banc | • Sicrhau bod hawlwyr yn deall swm tebygol eu taliad a phryd y byddant yn ei gael<br>• Sicrhau eu bod yn deall beth mae'r dyfarniad yn ei gwmpasu, gan gynnwys yr angen i dalu rhent eu hunain<br>• Helpu hawlwyr i ddeall eu hawliau a'u rhwymedigaethau<br>• Rhoi cyngor ar gyllidebu / cyfeiriadu os bydd yn briodol |

| CYFLWYNO CAIS | PARATOI AR GYFER CYFWELIAD | MYND I'R CYFWELIAD CYCHWYNNOL | PROFI MANYLION ADNABOD A LLOFNODI YMRWYMIAD HAWLIWR | DERBYN HYSBYSIAD DYFARNU | TALU UC I MEWN I GYFRIF BANC |
|---|---|---|---|---|---|
| • Helpu hawlwyr i ddeall dyddiad dechrau eu cais<br>• Cymryd manylion unrhyw dystiolaeth sydd gan yr hawliwr i ategu'r cais (fel nad oes angen iddynt ei hanfon ar wahân) | • Rhoi cyngor ar y dogfennau i ddod â hwy i'r cyfweliad a pham bod eu hangen<br>• Rhoi cymorth ar chwilio am waith a beth sydd angen iddynt ei wneud cyn eu cyfweliad cyntaf gan | | | • Helpu hawlwyr i ddeall eu penderfyniad dyfarnu a helpu i ateb unrhyw ymholiadau<br>• Sicrhau bod | • Helpu i gyfeirio hawlwyr at y cymorth sydd ei angen os nad yw eu harian wedi |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| • Helpu i nodi hawlwyr sydd angen eu hystyried ar frys ar gyfer trefniadau talu eithriadol a'u cyfeirio ar gyfer penderfyniad. | gynnwys cymorth sydd ar gael (e.e. drwy Baru Swyddi Ar-lein) | | | hawlwyr yn deall pa fudd-daliadau y cânt eu trosglwyddo iddynt a sut i gael mynediad iddynt<br>• Rhoi cyngor ar gyllidebu a sicrhau bod hawlwyr yn deall eu rhwymedigaethau (e.e. talu eu rhent yn uniongyrchol), a'r cymorth sydd ar gael os byddant yn ei chael hi'n anodd cyllidebu | cyrraedd eu cyfrif banc. |

| CYNNAL CAIS | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYLLIDEBU BOB MIS A THALU RHENT** | **DANGOS EU BOD “WRTHI’N CHWILIO AM WAITH”** | **DECHRAU / CYNYDDU GWAITH** | **DIWEDDARU MANYLION** | **TALIAD UC YN CAEL EI ADDASU’N AWTOMATIG** |
| • Rhoi cymorth i hawlwyr sy’n ei chael hi’n anodd rheoli cyllideb bob mis a’u tywys yn briodol (e.e. i’r Gwasanaeth Cynghori Ariannol / ar gyfer eithriad talu lle y bo’n briodol) | • Sicrhau bod hawlwyr yn ymwybodol o’u rhwymedigaethau o ran derbyn UC e.e. chwilio am waith, a’r cymorth sydd ar gael i’w cynorthwyo i ddod o hyd i waith gan gynnwys eu helpu i greu cyfrif paru swyddi a chreu CV / cofrestru ar gyfer gwasanaeth paru swyddi | • Sicrhau bod hawlwyr yn ymwybodol o’r angen i roi gwybod am ddechrau / cynyddu gwaith a sut i bennu a oes angen iddynt roi gwybod am eu henillion bob mis<br>• Galluogi hawlwyr i ddeall sut y maent yn well eu byd yn ariannol drwy weithio, a’r angen i barhau i geisio cynyddu eu horiau | • Sicrhau bod hawlwyr yn glir pryd / sut i roi gwybod am newidiadau a gwneud ymholiadau sy’n eu helpu i ddefnyddio eu cyfrif ar-lein (defnyddio rhif PIN)<br>• Helpu hawlwyr i ddeall pryd / pam bod angen tystiolaeth bellach weithiau a chofnodi manylion y dystiolaeth honno (fel nad oes angen i’r hawliwr ei hanfon ar wahân) | • Helpu hawlwyr i ddeall pryd / sut mae’r newid yn effeithio ar eu dyfarniad gan gynnwys egluro’r manteision ariannol i weithio<br>• Sicrhau bod hawlwyr yn gwybod beth i’w wneud os byddant yn credu bod eu taliad yn anghywir |

## Atodiad C: Amgylchiadau Hawlwyr

| AMGYLCHIADAU HAWLWYR |
|---|
| Materion iechyd meddwl |
| Anawsterau dysgu |
| Bod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol |
| Digartrefedd |
| Cyfyngiadau o ran Saesneg |
| Anawsterau llythrennedd |
| Carcharorion a Phobl a Gedwir |
| Pobl ifanc 16 a 17 oed |
| Pobl nad ydynt yn wladolion yr AEE - yn cynnwys ffoaduriaid |
| Anableddau corfforol |
| Gweithio dramor |
| Dioddefwyr trais domestig |
| Anableddau synhwyraidd |
| Gorddyled difrifol |
| Pobl dros 18 oed sy'n gadael gofal |
| Bod yn gaeth i gamblo |
| Hawlwyr MAPPA |
| Anawsterau rhifedd |
| Cefnogaeth gan y rhaglen Teuluoedd â Phroblemau |
| Ynysu gwledig |

**Ffynhonnell: Dadansoddi Rhaglen UC**

## Atodiad Ch: Cymorth Cyllidebu Bersonol

**Amcanion**
Mae a wnelo'r Cymorth Cyllidebu Bersonol â helpu hawlwyr i addasu i'r newidiadau ariannol allweddol a ddaw yn sgil y Credyd Cynhwysol h.y. taliadau misol safonol â thair elfen allweddol - un taliad cartref, a delir yn fisol, gyda chostau tai yn cael eu talu'n uniongyrchol i'r hawliwr.

Mae 2 elfen i'r Strategaeth Gyllidebu Bersonol:

- **Cyngor Ariannol**
- **Trefniadau talu amgen**

**Cynhyrchion**

Bydd amrywiaeth o adnoddau **Cyngor Ariannol** ar gael mewn amrywiaeth o gyfryngau addas i gefnogi pob hawliwr, o adnoddau ar-lein i gymorth personol. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- Adnoddau cyllidebau neu ddiagnostig ar-lein fel y rheini a gynigir gan Cymorth Ar Bopeth neu'r Gwasanaeth Cyngor ar Arian
- Gwasanaethau cyngor ar arian a dyledion a gynigir gan sefydliadau cenedlaethol a lleol
- Cymorth ariannol a gynigir gan ALlau ac undebau credyd e.e. cardiau rhagdaledig, cyfrifon sylfaenol sy'n cynnig mwy.

Mae tri **threfniant talu amgen** h.y. talu costau tai i landlordiaid, taliadau amlach a rhannu taliadau (rhwng aelodau'r cartref). Caiff hawlwyr sydd angen **trefniadau talu amgen** eu nodi ym mhroses fusnes graidd y Cynllun Cyllidebu Bersonol. Mae'r gyfres o ffactorau yn seiliedig ar asesiad o amgylchiadau'r hawliwr, er enghraifft; ymhlith y ffactorau sbarduno mae bod yn gaeth, anawsterau dysgu, dyled ddifrifol, digartrefedd ac ati.

Caiff y mwyafrif helaeth o hawlwyr sy'n cael cyfweliad trefniadau talu amgen eu hatgyfeirio i gyngor ariannol gyda'r nod o'u helpu i ddychwelyd i allu ariannol llawn dros amser a chael gwared ar y trefniadau talu amgen pan nad oes eu hangen mwyach.

Bydd y **broses** PBS yn cael ei sefydlu er mwyn dewis y gwasanaeth a'r sianel mwyaf addas ar gyfer hawlwyr yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae hyn yn golygu:

- Atgyfeirio hawlwyr am hunangymorth;
- Nodi a gweithredu trefniadau talu amgen i'r rhai sydd eu hangen; ac
- Atgyfeirio hawlwyr am gymorth ariannol gan y darparwr mwyaf priodol

## Atodiad Dd: Strwythur Partneriaethau Darluniadol

| Cytundeb Partneriaeth Cyffredinol | |
|---|---|
| **Amlinelliad** | **Cynnwys** |
| • Cytunir ar Gytundeb Partneriaeth Cyffredinol rhwng Credyd Cynhwysol a chynrychiolydd o bob un o'r cymdeithasau ALI.<br>• Mae'n darparu cytundeb cyffredinol ar gyfeirio gweithio mewn partneriaeth rhwng DWP ac ALIau.<br>• Mae'n cynnwys nifer o adrannau cyffredinol sydd â'r nod pennaf o sicrhau eglurder a chysondeb a gosod sylfeini clir ar gyfer sefydlu Cytundebau Partneriaeth Cyflenwi mwy lleol. | Yn unol ag ymgynghoriad manwl pellach, rhagwelir y bydd yr OPA yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, yr adrannau allweddol canlynol :-<br>a) Egwyddorion partneriaeth rhwng DWP ac ALI<br>b) Gwerthoedd a Rennir a Ffactorau Hanfodol ar gyfer Llwyddo<br>c) Gwasanaethau Cymorth Lleol<br>ch) Cyllid/Taliadau ac Egwyddorion Perfformiad<br>d) Safonau Gwasanaeth/Cyflenwi.<br>dd) Egwyddorion ailddefnyddio<br>e) Llywodraethu (yn cynnwys Cyflwyno Adroddiadau / Adolygu)<br>f) Datrys Materion ac Anghydfodau<br>ff) Gwelliant Parhaus<br>g) Cydweithio<br>ng) Egwyddorion a rhwymedigaethau Cadwyn Gyflenwi AL<br>h) Ymadael o'r cytundeb<br>i) Llofnodwyr<br>j) Templed Cytundeb Partneriaeth Cyflenwi (adran y gellir ei datgysylltu) |

| Cytundeb Partneriaeth Cyflenwi | |
|---|---|
| **Amlinelliad** | **Cynnwys** |
| • Yn gyson â'r Fframwaith Partneriaeth Cyffredinol, bydd hwn yn cynnwys y cytundeb gwasanaethau lleol rhwng DWP ac ALI (neu grŵp o ALIau) | Yn unol ag ymgynghoriad manwl pellach, rhagwelir y bydd y DPA yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, yr adrannau allweddol canlynol :-<br>a) Cyfrifoldebau partïon:<br>• DWP<br>• ALI<br>• Cydgyfrifoldebau<br>b) Darparu Gwasanaethau (wedi'i nodi o bosibl fel cyfres o wasanaethau sylfaenol a chanlyniadau)<br>c) Cyllid/Taliadau a Chyfundrefn Perfformiad;<br>ch) Darparu Gwybodaeth Rheolaeth<br>d) Llywodraethu (yn cynnwys Cyflwyno Adroddiadau / Adolygu<br>dd) Rheoli Newid<br>e) Cyfeirio<br>f) Datrys Materion ac Anghydfodau<br>ff) Ymadael o'r cytundeb<br>g) Llofnodwyr. |